



**Ymateb Afonydd Cymru i ymgynghoriad cyhoeddus Ysgrifenyddiaeth
Rywogaethau Estron Nad ydynt yn Frodorol (GB) ar Gynlluniau Gweithredu
Llwybrau (PAPs) drafft ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS).**

Awst, 2025.

Mae Afonydd Cymru yn gorff ymbarél ar gyfer ymddiriedolaethau afonydd yng Nghymru. Rydym yn darparu eiriolaeth i Lywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru. Yn nhermau'r ymgynghoriad hwn, mae ein hymddiriedolaethau afonydd rhanbarthol yn cyflawni gwaith dileu rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) yng Nghymru. Mae Afonydd Cymru yn aelod o Fforwm Pysgodfeydd Cymru ac mae rhai ymddiriedolaethau afonydd rhanbarthol yn cefnogi cynllun Pasbort Pysgota Cymru.

Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad ar Gynlluniau Gweithredu Llwybrau (PAPs) ar gyfer INNS ym Mhrydain Fawr. Ein ffocws yw PAPs ar gyfer pysgota a hwylio.

Mae Afonydd Cymru yn cefnogi dull cydgysylltiedig ar draws Prydain Fawr i fynd i'r afael ag INNS, o ystyried y risg uchel o drosglwyddo INNS rhwng y pedair gwlad. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y diffyg cydnabyddiaeth o sefydliadau penodol i Gymru yn y PAPs, sy'n debygol o arwain at ymateb anghydgyssylltiedig yng Nghymru ac yn debygol o arwain at fethiant i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog. Nid yw'n glir o'r PAPs sut mae'r cynlluniau'n cael eu gweithredu'n benodol yng Nghymru.

Ein sylwadau yw:

Pysgota

- Mae diffyg cynrychiolaeth Gymreig ymysg sefydliadau – dim ond CNC a'r Canal & Rivers Trust sy'n cwmpasu Cymru (gan dybio bod Glandŵr Cymru yn cael ei gynrychioli gan CRT). Nid yw unrhyw gorff Gymreig arall wedi'i ddiffinio'n benodol. Nid yw Pysgota Cymru nac Pysgota yng Nghymru wedi'u cyfeirio fel partneriaid yn y PAP.

- Byddai'r Cynllun Gweithredu yn gliriach pe bai sefydliadau allweddol yn cael eu nodi yn ôl gwlad ddatganoledig.
- Mae angen cydgysylltiad ar sail dalgylch afonydd ar draws pob defnyddiwr afon (ar hyn o bryd nid yw'r partneriaethau dalgylch hyn yn bodoli yng Nghymru) i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n gydgysylltiedig.
- Mae'r Cynllun Gweithredu yn brin o unrhyw ddiffiniad o awdurdod arweiniol ac atebol (a fyddai'n cael ei gynorthwyo drwy wahanu'r gwledydd, gan y bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar leoliad), nid oes amserlenni clir ar gyfer cyflawni nac unrhyw fesur o ganlyniadau/llwyddiant. Nid yw'n glir sut y gwyddys a yw'r camau a nodwyd yn cael eu cyflawni.
- Nid ydym yn ystyried bod y camau wedi ystyried gwahaniaethau rhwng mathau o bysgota ac yn benodol y gwahaniaethau rhwng pysgotwr afon a physgotwr dŵr llonydd. Mae llawer o'r camau a nodwyd yn anymarferol ar gyfer pysgota afon (er enghraifft, arwyddion ym mhob pwynt mynediad, gosod glanhau ym mhob pwynt mynediad).
- Nid oes trwydded bysgota Gymreig ar hyn o bryd, ac mae trwyddedau'n cael eu rhoi gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r trwyddedau bellach yn cael eu rhoi'n electronig, ac nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw wybodaeth bioddiogelwch yn cael ei darparu gyda'r drwydded electronig fel y nodwyd yn y PAP. Byddem yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei darparu'n ddwyieithog ac nid yw'n glir sut mae hyn yn cael ei gyflawni o dan system a roddir gan yr EA.
- Mae camau wedi'u neilltuo i ymddiriedolaethau afonydd nad ydym yn credu sydd o fewn cyfrifoldebau ymddiriedolaethau afonydd yng Nghymru.
- Mae'r PAP yn awgrymu y bydd clybiau pysgota yn darparu offer a gedwir ar y safle. Gall hyn fod yn wir ar gyfer clwb pysgota sy'n seiliedig wrth lyn, ond mae bron pob pysgotwr yn berchen ar eu hoffer eu hunain ac yn ei gludo gyda nhw (Cam 10A).
- Mae croestoriad sylweddol gyda'r PAP Hwyllo a ddylai gael ei gysylltu'n glir a'i gyfeirio.

Hwyllo

- Eto, mae diffyg cynrychiolaeth o sefydliadau hwyllo Cymreig yn y PAP.
- Eto, byddai'r PAP yn elwa o ystyried camau yn ôl gwlad ddatganoledig, gan nodi'r sefydliadau allweddol cywir yng Nghymru a neilltuo atebolrwydd am gyflawni'r PAP yng Nghymru.

- Mae diffyg cydgysylltiad ar draws cyrff yng Nghymru, ac rhwng defnyddwyr dŵr gwahanol yn enwedig gyda'r cynnydd mewn defnydd hamdden o ddŵr, er enghraifft, nid yw camau yn y PAP yn cyfeirio at neu'n cynnwys padlfyrddwyr a nofwyr gwyllt a ddylai hefyd fod yn cyflwyno'r un negeseuon ar offer. Mae'r rhan fwyaf o ddyfroedd yn cael eu rhannu gan ddefnyddwyr lluosog ac mae angen ystyried cyfrifoldeb ar draws pob defnyddiwr dŵr i weithredu'r un gofynion.
- Dylid diweddarau'r Cod Ymddygiad i gynnwys cyfrifoldeb defnyddwyr cychod i adrodd am INNS a strwythur llywodraethu clir i bwy y dylid adrodd.

Yn gyffredinol, mae INNS yn gofyn am raglen ymateb cydgysylltiedig aml-sector. Rydym wedi gweld diffyg atebolrwydd a chyfrifoldeb penodol yng Nghymru pan nodwyd INNS, gyda llywodraethu aneglur a diffyg eglurder ynghylch pwy sydd angen cyflawni camau – yn benodol lle mae dyfroedd yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr lluosog ac nid yw'n glir pwy sydd â'r atebolrwydd. Byddai hyn yn cael ei ddatrys drwy gysylltu'r ddau PAP a sicrhau bod gan INNS sy'n seiliedig ar ddŵr strwythur llywodraethu clir yng Nghymru ar gyfer datrys.

Afonydd Cymru

Awst, 2025